# Ymsefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru

(diwygiwyd Medi 2012)

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



## Canllawiau drafft

Dogfen ganllawiau drafft rhif: 069/2012
Dyddiad cyhoeddi: 3 Ebrill 2012

# Ymsefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru

(diwygiwyd Medi 2012)

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Athrawon newydd gymhwyso; mentoriaid allanol; penaethiaid; cyrff priodol/awdurdodau lleol; cydgysylltwyr consortia; cadeiryddion y llywodraethwyr; ysgolion annibynnol; sefydliadau addysg bellach; asiantaethau athrawon llanw; sefydliadau hyfforddiant cychwynnol athrawon; ac Estyn. |
| **Trosolwg** | Mae ymsefydlu yn ofyniad statudol ar gyfer pob athro/athrawes newydd gymhwyso yng Nghymru sy'n ennill statws athro/athrawes cymwysedig ôl 1 Ebrill 2003. Dyma ganllawiau statudol sy'n darparu manylion ynglŷn â gofynion rheoli a chyflenwi ymsefydlu yng Nghymru. |
| **Camau i'w cymryd** | Bod yr holl unigolion neu gyrff sy'n ymwneud ag ymsefydlu statudol yng Nghymru yn gweithredu'r weithdrefn a'r cyngor a nodir yn y canllawiau drafft hyn, ac yn rhoi sylw haeddiannol iddynt. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid anfon pob ymholiad ynglŷn â'r canllawiau drafft hyn at:<br>Y Tîm Ymsefydlu<br>Yr Is-adran Gwella Dysgu a Datblygiad Proffesiynol<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>Ffôn: 029 2080 1389<br>e-bost: inductioninfo@cymru.gsi.gov.uk |
| **Copïau ychwanegol** | Gellir gweld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau |
| **Dogfennau cysylltiedig** | *Safonau proffesiynol diwygiedig ar gyfer ymarferwyr addysg yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, 2011) |

ISBN: 978 0 7504 7380 4
© Hawlfraint y Goron 2012
WG14588

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 2 |
| Y model adolygu a datblygu ymarfer | 3 |
| Trefniadau ymsefydlu yng Nghymru | 4 |
| Rôl y mentor allanol | 12 |
| Rôl y pennaeth a'r ysgol | 14 |
| Rôl y corff priodol | 15 |
| Estyniadau | 18 |
| Cynnydd anfoddhaol | 20 |
| Ar ôl cwblhau'r cyfnod ymsefydlu | 22 |
| Apeliadau | 23 |
| Canlyniadau methu cwblhau'r ymsefydlu'n foddhaol o ran cyflogaeth | 24 |
| Athrawon sy'n cymhwyso y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd/Y Swistir | 25 |
| Atodiad A: Safonau athrawon wrth eu gwaith | 26 |
| Atodiad B: Sefydliadau addysg bellach | 31 |
| Atodiad C: Cysylltiadau a dolenni defnyddiol | 32 |

# Cyflwyniad

Rhoddir y canllawiau hyn o dan Reoliad 20 yn Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1818 (C.146)) ('y Rheoliadau'). Rhaid i unrhyw unigolyn neu gorff sy'n cyflawni swyddogaeth o dan y Rheoliadau roi sylw i'r canllawiau hyn wrth gyflawni'r swyddogaethau hynny.

Mae'r canllawiau hyn yn cyflenwi gofynion y Rheoliadau, a rhaid ei ddarllen ochr yn ochr â'r Rheoliadau.

Cyflwynwyd ymsefydlu statudol ar gyfer pob athro/athrawes newydd gymhwyso (ANG) yng Nghymru ym mis Medi 2003 ac mae'n berthnasol i'r holl athrawon a enillodd eu statws athro/athrawes cymwysedig ar ôl 1 Ebrill 2003.

Pwrpas ymsefydlu statudol yw:

- adeiladu ar y profiadau a gafwyd yn yr hyfforddiant cychwynnol athrawon
- rhoi cyfle i bob ANG ddatblygu ei arfer drwy ganolbwyntio ar y gofynion a nodir yn y safonau athrawon wrth eu gwaith
- sicrhau y caiff pob ANG yng Nghymru ei asesu yn erbyn y safonau cenedlaethol a ragnodir (safonau athrawon wrth eu gwaith)
- paratoi pob ANG ar gyfer ei yrfa fel athro/athrawes drwy sefydlu'r sgiliau a'r ymddygiadau y bydd angen iddo adeiladu arnynt drwy gydol ei yrfa
- sicrhau bod pob ANG yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau o lythrennedd, rhifedd, lleihau'r cyswllt rhwng tlodi a chyrhaeddiad, rheoli ymddygiad, anghenion dysgu ychwanegol ac ymarfer myfyriol yn ystod ei gyfnod ymsefydlu.

# Y model adolygu a datblygu ymarfer

Mae'r model adolygu a datblygu ymarfer yn darparu'r cyd-destun cyffredinol ar gyfer datblygiad proffesiynol ANG yn y tymor hir, ac yn pennu'r safonau proffesiynol – safonau athrawon wrth eu gwaith – y mae'n ofynnol iddynt eu bodloni ar ddiwedd eu cyfnod ymsefydlu.

Nod y model adolygu a datblygu ymarfer yw codi safonau'r addysgu a gwella deilliannau dysgwyr ledled Cymru drwy gydgysylltu safonau proffesiynol a datblygiad proffesiynol ymarferwyr, a'u rheolaeth ar berfformiad er mwyn creu un system gydlynus.

Bydd gan yr holl ymarferwyr sy'n cymryd rhan yn y broses adolygu a datblygu ymarfer hawl i gydweithio ag eraill, a disgwylir iddynt wneud hynny, er mwyn:

- myfyrio'n rheolaidd ar eu hymarfer drwy ddefnyddio disgrifiadau o ymarfer y cytunwyd arnynt yn genedlaethol (**y safonau**[1])
- defnyddio myfyrdodau o'r fath i nodi meysydd i'w datblygu ymhellach
- cymryd rhan mewn profiadau proffesiynol, a fydd yn arwain at ddatblygiad pellach yn y meysydd a nodwyd, yn seiliedig ar dystiolaeth o arfer gorau (**datblygiad proffesiynol**)
- bob blwyddyn o leiaf, creu cofnod ffurfiol o dystiolaeth o'u cyfranogiad yn y broses hon, a darparu'r dystiolaeth honno (**rheoli perfformiad**).

[1] Ar gyfer ANG, y safonau athrawon wrth eu gwaith yw'r safonau perthnasol.

# Trefniadau ymsefydlu yng Nghymru

## Cymhwysedd i ddechrau'r ymsefydlu

Mae'n ofyniad cyfreithiol yng Nghymru bod yn rhaid i ANG feddu ar statws athro/athrawes cymwysedig a bod wedi'u cofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC) er mwyn cael eu cyflogi fel athro/athrawes. Mae'n hanfodol bod hyn wedi'i gyflawni cyn cyflogi'r ANG. Ni ellir dechrau cyfnod ymsefydlu os nad yw'r ANG wedi'i gofrestru[2] gyda'r CyngACC ac yn meddu ar statws athro/athrawes cymwysedig.

Ceir manylion y broses gofrestru ar wefan y CyngACC yn www.gtcw.org.uk

## Hyd y cyfnod ymsefydlu

Rhaid i bob ANG gwblhau cyfnod ymsefydlu tri thymor ysgol o hyd neu gyfwerth. Rhaid i ANG nad ydynt yn cael eu cyflogi'n amser llawn gwblhau tri chant wyth deg o sesiynau ysgol. Caiff ANG nad oes ganddynt gyflogaeth reolaidd gasglu'r sesiynau hyn hyd nes y bo tri chant wyth deg o sesiynau ysgol wedi'u cwblhau.

## Cyfnodau cyflogaeth sy'n cyfrif tuag at yr ymsefydlu

Rhaid i bob cyfnod o gyflogaeth sy'n cynnwys un sesiwn ysgol[3] neu fwy gyfrif tuag at gyfnod ymsefydlu ANG. Ni cheir unrhyw hyblygrwydd yn hyn o beth, ac ni chaiff ANG nac ysgolion wneud cais i beidio cynnwys cyfnod o gyflogaeth tuag at yr ymsefydlu.

## Sefydliadau lle gellir cynnal ymsefydlu

- Ysgolion a gynhelir yng Nghymru (gan gynnwys ysgolion meithrin a gynhelir lle bo gan yr ysgol bennaeth, a lle bo modd i'r ysgol ddarparu cyfnod ymsefydlu boddhaol a fydd yn rhoi cyfle i'r ANG fodloni'r safonau athrawon wrth eu gwaith).
- Ysgolion arbennig nas cynhelir yng Nghymru.
- Sefydliadau addysg bellach yng Nghymru – gweler Atodiad B am fwy o fanylion.
- Ysgolion annibynnol yng Nghymru, lle bo:
  - y cwricwlwm ar gyfer unrhyw ddysgwyr cynradd yn yr ysgol yn bodloni gofynion y cwricwlwm cenedlaethol (ac eithrio'r trefniadau asesu)

---

[2] Os bydd ANG yn cofrestru wedi i dymor ddechrau, gellir dechrau'r ymsefydlu o'r dyddiad cofrestru.

[3] Diffinnir sesiwn ysgol fel un bore neu un prynhawn o gyflogaeth mewn ysgol.

– y cwricwlwm ar gyfer pob dysgwr yng Nghyfnod Allweddol 3 neu 4 yn cynnwys yr holl bynciau craidd a sylfaen
– cytundeb wedi'i sefydlu rhwng yr ysgol a naill ai awdurdod lleol neu'r Independent Schools Teacher Induction Panel (IStip) y bydd yr awdurdod neu'r panel hwnnw'n gweithredu fel corff priodol yr ysgol. Rhaid trefnu hyn cyn dechrau'r cyfnod ymsefydlu. Os na wneir hynny, ni fydd unrhyw gyfnodau ymsefydlu a gwblhawyd cyn y cytundeb hwn yn cyfrif. Ni cheir unrhyw ddisgresiwn yn gysylltiedig â'r gofyniad hwn.

## Sefydliadau lle na ellir cynnal ymsefydlu

- Unedau cyfeirio disgyblion.
- Ysgolion cymunedol neu ysgolion arbennig sefydledig mewn ysbytai.
- Ysgolion sydd angen mesurau arbennig onid yw un o arolygwyr Ei Mawrhydi dros addysg a hyfforddiant yng Nghymru yn ardystio mewn ysgrifen fod yr ysgol yn addas ar gyfer darparu ymsefydlu*.
- Ysgolion annibynnol nad ydynt yn bodloni'r meini prawf a ddisgrifir yn y Rheoliadau.
- Ysgolion meithrin annibynnol (onid ydynt yn ysgolion annibynnol sy'n bodloni'r meini prawf a nodwyd yn y Rheoliadau) a lleoliadau blynyddoedd cynnar eraill (onid ydynt yn ysgolion meithrin a gynhelir).

* Bydd Estyn yn barnu ynghylch addasrwydd ysgolion sydd angen mesurau arbennig i ddarparu ymsefydlu. Caiff y penderfyniad hwnnw ei adolygu bob tro y caiff yr ysgol ei monitro. Os canfyddir, yn dilyn arolwg, fod angen mesurau arbennig mewn ysgol, ond bod gan yr ysgol honno eisoes ANG mewn swydd yn cyflawni cyfnod ymsefydlu, neu fod yr ANG wedi'i gyflogi yn yr ysgol fel athro/athrawes graddedig neu athro/athrawes cofrestredig cyn canfod bod angen mesurau arbennig yn yr ysgol, gellir cwblhau'r ymsefydlu yn yr ysgol. Bydd y corff priodol yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw gefnogaeth ychwanegol angenrheidiol wedi'i threfnu.

## Eithrio o'r gofyniad i gyflawni ymsefydlu yng Nghymru

Nodir yr eithriadau o'r gofyniad i gyflawni ymsefydlu yng Nghymru yn Atodlen 1 y Rheoliadau.

## Llai o amser addysgu yn ystod yr ymsefydlu

Rhaid i athro/athrawes sy'n cyflawni cyfnod ymsefydlu o dan y Rheoliadau beidio ag addysgu am fwy na naw deg y cant o'r amser y byddai disgwyl i athro/athrawes ei dreulio'n addysgu yn yr ysgol. Nodir y gofyniad hwn yn *Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol* (Department for Education, 2011).

Yn ychwanegol at hyn, mae gan ANG hefyd hawl i ostyngiad pellach o ddeg y cant i'w hamserlen addysgu sy'n weddill, er mwyn cael amser digyswllt statudol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.

## Cyfnodau ymsefydlu a gwblhawyd cyn 1 Medi 2012

Bydd unrhyw gyfnod ymsefydlu a gwblhawyd cyn 1 Medi 2012 yn cael ei gario drosodd ac yn cyfrif tuag at ymsefydlu o dan y Rheoliadau.

## Ymsefydlu ar gyfer ANG amser llawn – goruchwyliaeth a hyfforddiant

Bydd unrhyw gyfnod ymsefydlu a gwblhawyd cyn 1 Medi 2012 yn cael ei gario drosodd ac yn cyfrif tuag at ymsefydlu o dan y Rheoliadau.

### Tymor 1

Ar ddechrau'r cyfnod ymsefydlu

- Rhaid i'r pennaeth gwblhau'r 'ffurflen gofrestru ymsefydlu' a'i chyflwyno i'r CyngACC (gan anfon copi i'r corff priodol) cyn dechrau'r ymsefydlu.
- Rhaid i'r corff priodol benodi mentor allanol i gefnogi'r ANG drwy ei gyfnod ymsefydlu.
- Rhaid i'r pennaeth benodi mentor yn yr ysgol i gefnogi'r ANG o ddydd i ddydd.
- Rhaid i'r ANG benderfynu a yw'n dymuno dechrau'r Radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol.

Cyn hanner tymor

- Rhaid i'r mentor ysgol ac/neu'r pennaeth fod wedi cwrdd â'r mentor allanol.

- Bydd yr ANG, y mentor allanol a'r pennaeth neu'r mentor ysgol wedi cytuno ar amserlen arsylwi'r ANG.
- Bydd y mentor allanol yn trafod y safonau athrawon wrth eu gwaith gyda'r ANG ac yn cynnig cyngor ynghylch sut i gasglu portffolio o dystiolaeth er mwyn paratoi i gael ei asesu yn erbyn y safonau ar ddiwedd y cyfnod ymsefydlu.
- Bydd y mentor allanol wedi pennu amcanion yr ANG, a fydd yn seiliedig ar dystiolaeth o'r ysgol, o broffil dechrau gyrfa yr ANG, a'r safonau athrawon wrth eu gwaith.

### Cyn diwedd y tymor cyntaf

- Rhaid i'r mentor ysgol ac/neu'r pennaeth gwrdd â'r mentor allanol am yr ail waith er mwyn trafod cynnydd.
- Rhaid i'r mentor allanol fod wedi cwblhau ei arsylwad cyntaf o'r ANG yn addysgu.
- Rhaid i'r ANG a'r mentor allanol fod wedi cwrdd am eu sesiwn hyfforddi cyntaf. Rhaid i'r sesiwn honno gynnwys adolygiad o'r dystiolaeth ym mhortffolio ymsefydlu yr ANG yn erbyn y safonau athrawon wrth eu gwaith.

### Ar ddiwedd y tymor cyntaf

- Dylai'r ysgol yrru anfoneb i'r CyngACC er mwyn hawlio cyllid i dalu am y deg y cant o amser digyswllt yr ANG yn ystod tymor cyntaf ei ymsefydlu. Seilir hyn ar ad-daliad o gostau cyflog gwirioneddol yr ANG. Ceir y manylion llawn ar wefan y CyngACC yn www.gtcw.org.uk

## Tymor 2

### Cyn hanner tymor

- Rhaid i'r mentor ysgol fod wedi cwblhau ei arsylwad cyntaf o'r ANG yn addysgu.

### Cyn diwedd yr ail dymor

- Rhaid i'r mentor ysgol ac/neu'r pennaeth fod wedi cwrdd â'r mentor allanol am y drydedd waith er mwyn trafod cynnydd.
- Rhaid i'r mentor allanol fod wedi cwblhau ei ail arsylwad o'r ANG yn addysgu.

- Rhaid i'r ANG a'r mentor allanol fod wedi cwrdd am eu hail sesiwn hyfforddi, a fydd yn cynnwys adolygiad o'r dystiolaeth ym mhortffolio ymsefydlu yr ANG yn erbyn y safonau athrawon wrth eu gwaith.

Ar ddiwedd yr ail dymor

- Dylai'r ysgol yrru anfoneb i'r CyngACC er mwyn hawlio cyllid i dalu am y deg y cant o amser digyswllt yr ANG yn ystod ail dymor ei ymsefydlu. Seilir hyn ar ad-daliad o gostau cyflog gwirioneddol yr ANG. Ceir y manylion llawn ar wefan y CyngACC yn www.gtcw.org.uk

**Tymor 3**

Cyn hanner tymor

- Rhaid i'r mentor ysgol fod wedi cwblhau ei ail arsylwad o'r ANG yn addysgu.

Cyn diwedd y trydydd tymor

- Rhaid i'r mentor ysgol ac/neu'r pennaeth fod wedi cwrdd â'r mentor allanol am y tro olaf er mwyn trafod cynnydd.
- Rhaid i'r mentor allanol fod wedi cwblhau ei arsylwad terfynol o'r ANG yn addysgu.
- Rhaid i'r ANG a'r mentor allanol fod wedi cwrdd am eu sesiwn hyfforddi olaf, a fydd yn cynnwys adolygiad o'r dystiolaeth ym mhortffolio ymsefydlu yr ANG ar gyfer paratoi am asesiad yn erbyn y safonau athrawon wrth eu gwaith.

Ar ddiwedd y trydydd tymor

- Rhaid i fentoriaid allanol gynnal yr asesiad cychwynnol o'r holl bortffolios ymsefydlu. (Argymhellir cwblhau hyn ar sail ranbarthol.) Rhaid i hyn gynnwys asesiad o'r dystiolaeth a ddarparwyd i'r mentor allanol gan ysgol(ion) yr ANG a ddylai gael ei chynnwys ym mhortffolio ymsefydlu yr ANG.
- Rhaid i bortffolios ymsefydlu gael eu cymedroli ar raddfa genedlaethol gan fentoriaid allanol, ac i'r gwaith hwnnw gael ei drefnu gan gonsortia. Rhaid i'r cymedroli hwn fod yn seiliedig ar sampl o bortffolios ymsefydlu.

- Rhaid i'r mentoriaid allanol ddarparu tystiolaeth i'r corff priodol i gefnogi'r penderfyniad terfynol – rhaid i hyn gynnwys dadansoddiad ysgrifenedig gan y mentor allanol a phortffolio ymsefydlu'r ANG (a fydd yn cynnwys tystiolaeth berthnasol o ysgol(ion) yr ANG).
- Rhaid i'r corff priodol benderfynu'n derfynol a yw'r ANG wedi llwyddo yn y cyfnod ymsefydlu, wedi methu, ynteu a oes angen estyn y cyfnod hwnnw.

Ar ddiwedd y trydydd tymor

- Dylai'r ysgol yrru anfoneb i'r CyngACC er mwyn hawlio cyllid i dalu am y deg y cant o amser digyswllt yr ANG yn ystod trydydd tymor ei ymsefydlu. Seilir hyn ar ad-daliad o gostau cyflog gwirioneddol yr ANG. Ceir y manylion llawn ar wefan y CyngACC yn www.gtcw.org.uk

## Ymsefydlu ar gyfer ANG rhan-amser

Rhaid i bob ANG rhan-amser gwblhau cyfnod ymsefydlu sy'n cynnwys tri chant wyth deg o sesiynau ysgol.

Rhaid i'r cyfnod ymsefydlu ar gyfer ANG rhan-amser ddilyn yr un patrwm â'r patrwm ar gyfer ANG amser llawn, ond dylid ei drefnu ar sail pro-rata. Rhaid i ANG rhan-amser gael yr un nifer o arsylwadau, cyfarfodydd a sesiynau hyfforddi ag ANG amser llawn.

Os bydd gan ANG ddau neu fwy o gontractau rhan-amser ar draws dwy neu fwy o ysgolion ar yr un pryd, bydd y mentor allanol yn gweithredu fel cyswllt rhwng yr ysgolion ac yn datblygu rhaglen ymsefydlu briodol ar gyfer yr ANG.

Gall ysgolion hawlio cyllid gan y CyngACC ar gyfer y deg y cant o amser digyswllt ar gyfer ANG rhan-amser ar ddiwedd pob tymor. Ad-delir y swm hwn ar sail pro-rata. Dim ond costau cyflog gwirioneddol y gellir eu hawlio. Gweinyddir yr holl gyllid gan y CyngACC. Ceir y manylion llawn ar wefan y CyngACC yn www.gtcw.org.uk

## ANG peripatetig

Gall ANG peripatetig gwblhau eu hymsefydlu drwy gronni eu haddysgu ym mhob ysgol lle maent yn cael eu cyflogi. Ar ddechrau'r cyfnod ymsefydlu, rhaid i'r corff priodol benodi mentor allanol a fydd yn cefnogi'r athro/athrawes peripatetig drwy gydol ei ymsefydlu ac yn gweithio ar draws yr ysgolion i gasglu tystiolaeth o gynnydd yr ANG.

## Symud i ysgol arall yn ystod yr ymsefydlu

Os bydd ANG yn symud i ysgol arall yn ystod ei gyfnod ymsefydlu, bydd y mentor allanol yn aros yr un peth (ar yr amod bod yr ANG wedi symud oddi mewn i'w ardal gonsortia) ac yn parhau i gefnogi ymsefydlu'r ANG. Mae'n bwysig i'r pennaeth hysbysu'r CyngACC fod yr ANG wedi newid ysgol, a rhaid i'r ysgol newydd gwblhau 'ffurflen cofrestru ymsefydlu' newydd a'i chyflwyno i'r CyngACC cyn pen pymtheg diwrnod gwaith wedi i'r ANG gychwyn ei swydd newydd. Mae'n hanfodol hysbysu'r CyngACC am y newid hwn oherwydd ei rôl yn ariannu ymsefydlu mewn ysgolion a gynhelir.

Os bydd ANG yn symud i ysgol y tu allan i'w ardal gonsortia, bydd angen i'r corff priodol benderfynu fesul achos pwy sy'n ymgymryd â rôl y mentor allanol. Lle bo modd, dylid parhau gyda'r mentor allanol presennol er mwyn sicrhau cysondeb ar gyfer yr ANG drwy gydol ei gyfnod ymsefydlu. Fodd bynnag, ceir achosion lle bydd hyn yn anymarferol, er enghraifft, os yw'r ANG wedi symud ymhell i ffwrdd.

## Ymsefydlu ar gyfer athrawon llanw byrdymor

Rhaid i bob ANG sy'n cwblhau ei ymsefydlu drwy gronni cyfnodau byrdymor o addysgu llanw gronni tri chant wyth deg o sesiynau ysgol cyn y gellir ei asesu yn erbyn y safonau athrawon wrth eu gwaith. Rhaid i bob cyfnod cyflogaeth o un sesiwn o leiaf a gyflawnwyd o 1 Medi 2012 gyfrif tuag at yr ymsefydlu. Bydd ANG yn gyfrifol am gofnodi'r cyfnodau hyn o gyflogaeth gyda'r CyngACC.

Bydd yn ofynnol i ANG sy'n cwblhau eu hymsefydlu drwy addysgu llanw byrdymor gwblhau portffolio o dystiolaeth ymsefydlu i ddangos eu cynnydd yn erbyn y safonau athrawon wrth eu gwaith. Rhaid i benaethiaid roi cefnogaeth o ddydd i ddydd i ANG sy'n cyflawni eu hymsefydlu drwy addysgu llanw byrdymor. Ceir portffolios ymsefydlu enghreifftiol, gwybodaeth bellach ac adnoddau ar gyfer ANG llanw ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

Ar gyfer pob cyfnod o addysgu llanw, bydd yn ofynnol i ANG sicrhau bod eu hysgol neu eu hasiantaeth athrawon llanw wedi gwirio'r cyfnod addysgu. Rhaid casglu'r gwiriad hwn a'i gadw ym mhortffolio ymsefydlu'r ANG.

Cyn gynted ag y bydd ANG wedi cwblhau cant naw deg o sesiynau ysgol, rhaid iddo gyflwyno tystiolaeth interim i'r corff priodol lle cyflawnodd fwyafrif ei addysgu llanw, a rhaid penodi mentor

allanol ar ei gyfer a fydd yn rhoi arweiniad a chefnogaeth. Rhaid i'r CyngACC roi rhybudd mewn ysgrifen i'r ANG ac i'r corff priodol perthnasol cyn gynted ag y bo cant naw deg o sesiynau ysgol wedi'u cwblhau. Ar gyfer gweddill ymsefydlu'r ANG, rhaid i'r corff priodol a'r mentor allanol a bennwyd gefnogi'r ANG.

Rhaid i'r CyngACC hysbysu'r corff priodol a'r ANG mewn ysgrifen cyn gynted ag y bo tri chant wyth deg o sesiynau ysgol wedi'u cwblhau. Bryd hynny, bydd yn ofynnol i'r ANG gyflwyno'i bortffolio o dystiolaeth ymsefydlu i'r mentor allanol i'w asesu yn erbyn y safonau athrawon wrth eu gwaith.

## Cronni cyfnodau addysgu

Bydd pob cyfnod addysgu'n cyfrif tuag at gyfnod ymsefydlu ANG. Rhaid cronni gwahanol gyfnodau cyflogaeth hyd nes y bo tri chant wyth deg o sesiynau ysgol wedi'u cwblhau. Ar gyfer ANG sy'n symud rhwng cyflogaeth amser llawn, cyflogaeth ran-amser ac addysgu llanw, rhaid i'r ANG sicrhau ei fod yn cofnodi'r holl gyfnodau cyflogaeth yn ei bortffolio ymsefydlu a sicrhau bod y sesiynau a gyflawnir fel athro/athrawes llanw'n cael eu cofnodi gyda'r CyngACC.

## Portffolios ymsefydlu

Bydd disgwyl i bob ANG gasglu portffolio o dystiolaeth drwy gydol ei gyfnod ymsefydlu er mwyn dangos ei gynnydd yn erbyn y safonau athrawon wrth eu gwaith. Ar ddiwedd y cyfnod ymsefydlu, rhaid i'r ANG gyflwyno'i bortffolio ymsefydlu i'r mentor allanol i'w asesu a'i gymedroli, a defnyddir hyn yn rhan o'r dystiolaeth a ystyrir gan y corff priodol yn yr asesiad terfynol.

Dylai'r portffolio ymsefydlu gyfeirio at dystiolaeth sy'n dangos sut mae'r ANG wedi bodloni bob un o'r safonau athrawon wrth eu gwaith, gan gynnwys tystiolaeth bod addysgu'r ANG wedi cael ei arsylwi'n uniongyrchol.

# Rôl y mentor allanol

Mae'n ddyletswydd ar y corff priodol ddarparu ar gyfer goruchwylio a hyfforddi pob ANG sy'n cyflawni ei ymsefydlu. Mae hyn yn cynnwys darparu goruchwyliaeth a hyfforddiant i ANG gan rai a chanddynt wybodaeth am y safonau athrawon wrth eu gwaith. Disgwylir y bydd cyrff priodol yn cyflawni hyn drwy bennu mentor allanol ar gyfer pob ANG.

Mae gan y mentor allanol rôl allweddol yn y broses ymsefydlu gan y bydd yn gweithio gyda grŵp o ANG ar draws rhanbarth er mwyn darparu cefnogaeth, cyngor a hyfforddiant o ansawdd uchel fel bo modd i ANG ddatblygu eu hymarfer a chasglu tystiolaeth yn erbyn y safonau athrawon wrth eu gwaith.

Rhaid i fentoriaid allanol fod yn ymarferwyr profiadol a chanddynt wybodaeth am bob un o'r safonau athrawon wrth eu gwaith, a chanddynt y sgiliau sydd eu hangen i hyfforddi a mentora ANG yn llwyddiannus drwy eu cyfnod ymsefydlu.

Pan fydd ANG yn dewis dilyn y Radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol, bydd y mentor allanol hefyd yn eu cefnogi drwy'r radd honno.

Rhaid i'r awdurdod lleol (y corff priodol i ddibenion ymsefydlu) bennu mentoriaid allanol, a threfnu hynny ar sail ranbarthol. Mae'r rôl ranbarthol hon yn hollbwysig er mwyn sicrhau cysondeb ar gyfer ANG yn ystod eu hymsefydlu, ac er mwyn darparu cefnogaeth ychwanegol, ehangach y tu hwnt i brofiad yr ANG yn yr ysgol.

Yn ystod yr ymsefydlu, bydd disgwyl i fentoriaid allanol:

- gydweithio ag ysgol yr ANG
- pennu amcanion yr ANG (gan ddefnyddio'r dystiolaeth o'r ysgol, o broffil dechrau gyrfa yr ANG, a'r safonau athrawon wrth eu gwaith)
- cwrdd â'r pennaeth/y mentor ysgol unwaith bob tymor i drafod cynnydd
- arsylwi'r ANG yn addysgu unwaith bob tymor
- darparu hyfforddiant a mentora bob tymor, yn enwedig mewn perthynas â phortffolio o dystiolaeth ymsefydlu'r ANG yn erbyn y safonau athrawon wrth eu gwaith
- gweithio mewn partneriaeth â mentoriaid allanol yn rhanbarthol ac yn genedlaethol er mwyn sicrhau cefnogaeth gyson o ansawdd uchel

- asesu'r holl bortffolios ymsefydlu yn erbyn y safonau athrawon wrth eu gwaith
- cymedroli portffolios ymsefydlu ar sail genedlaethol
- darparu tystiolaeth i'r corff priodol er mwyn goleuo'r penderfyniad terfynol ar ddiwedd y cyfnod ymsefydlu.

Ar gyfer mentoriaid allanol a benodir i gefnogi ANG sy'n cwblhau eu hymsefydlu drwy gyfnodau addysgu llanw byrdymor, oherwydd natur y gyflogaeth, awgrymir y dylid datblygu rhaglen o gefnogaeth ymsefydlu wedi'i chynllunio'n arbennig ar gyfer pob ANG. Bydd angen i'r rhaglen bwrpasol hon gynnwys:

- dadansoddiad cychwynnol o bortffolio o dystiolaeth ymsefydlu'r ANG (ar ôl cwblhau cant naw deg o sesiynau)
- pennu amcanion
- arsylwi'r ANG
- hyfforddi a mentora, yn enwedig mewn perthynas â phortffolio o dystiolaeth ymsefydlu'r ANG yn erbyn y safonau athrawon wrth eu gwaith.

Mae'n annhebygol y bydd y mentor allanol yn gallu datblygu partneriaeth agos â'r ysgolion lle mae'r ANG yn cyflawni addysgu llanw byrdymor, ond os cyflawnir yr addysgu llanw'n rheolaidd mewn un neu fwy o ysgolion, dylai'r ysgol(ion) gyfrannu tuag at raglen ymsefydlu'r ANG.

# Rôl y pennaeth a'r ysgol

Rhaid i ysgolion sy'n cyflogi ANG roi cefnogaeth o ddydd i ddydd i'r ANG drwy gydol ei gyfnod ymsefydlu, cydweithio â'r mentor allanol a darparu tystiolaeth ar ddiwedd ei gyfnod ymsefydlu a fydd yn cyfrannu tuag at asesiad terfynol yr ANG. Cyfrifoldeb y pennaeth yw sicrhau bod y gefnogaeth hon yn cael ei darparu.

Bydd y gefnogaeth o ddydd i ddydd yn cynnwys:

- penodi mentor yn yr ysgol ar gyfer yr ANG
- gweithio gyda'r mentor allanol i ddatblygu amcanion yr ANG
- cyfarfodydd bob tymor gyda'r mentor allanol i drafod cynnydd yr ANG
- arsylwadau bob tymor o addysgu'r ANG.

Rhaid i ysgolion sicrhau cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn *Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol* a sicrhau nad yw ANG yn addysgu am fwy na naw deg y cant o'r amser y byddai disgwyl i athro/athrawes ei dreulio'n addysgu yn yr ysgol. Mae ysgolion yn gymwys i dderbyn cyllid i dalu am y gostyngiad hwn yn yr amserlen, a gellir hawlio'r cyllid hwnnw fesul tymor. Gweinyddir y cyllid gan y CyngACC ac mae gwybodaeth bellach a ffurflenni hawlio i'w cael ar eu gwefan yn www.gtcw.org.uk

# Rôl y corff priodol

Mae gan y corff priodol gyfrifoldeb statudol cyffredinol am oruchwylio a hyfforddi'r holl ANG, ac am benderfynu'n derfynol ar ddiwedd y cyfnod ymsefydlu a yw'r ANG wedi llwyddo yn ei gyfnod ymsefydlu, wedi methu, ynteu a oes angen estyn y cyfnod hwnnw.

Mae'r corff priodol yn gyfrifol am sicrhau bod ymsefydliad pob ANG yn cynnwys rhaglen o ddatblygiad proffesiynol, monitro a chefnogaeth yn seiliedig ar y blaenoriaethau craidd o lythrennedd, rhifedd, lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad, anghenion dysgu ychwanegol, rheoli ymddygiad ac ymarfer myfyriol.

Rhaid i'r corff priodol hysbysu'r CyngACC ynghylch canlyniad yr ymsefydliad ar gyfer yr holl rai sydd wedi llwyddo ynddo, a hefyd y rhai sy'n methu'r ymsefydliad neu'n cael estyniad i'w cyfnod ymsefydlu.

Rhaid i'r corff priodol sicrhau bod systemau sicrhau ansawdd effeithiol a chadarn yn cael eu sefydlu fel bo pob ANG yn derbyn cefnogaeth ymsefydlu o'r ansawdd uchaf. Dylid pennu'r dulliau o sicrhau ansawdd ar raddfa ranbarthol (h.y. consortia), ac o fewn y cyd-destun ehangach o sicrhau bod yr ymagwedd yn gyson ar raddfa genedlaethol.

## Pwy sy'n gweithredu fel y corff priodol?

Ar gyfer ysgolion a gynhelir ac ysgolion arbennig nas cynhelir, rhaid i awdurdod lleol ardal yr ysgol weithredu fel y corff priodol.

Ar gyfer ysgolion annibynnol, y corff priodol sy'n cyflawni'r tasgau hyn yw naill ai unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru neu, os yw'r ysgol yn aelod o'r Independent Schools Council (ISC), yr Independent Schools Teacher Induction Panel (IStip).

Rhaid i ysgolion annibynnol gytuno ag awdurdod lleol neu IStip y byddant yn gweithredu fel y corff priodol cyn cynnig ymsefydlu ANG yn yr ysgol. Ni chaiff pob ysgol annibynnol gynnig ymsefydlu. Dylai'r corff priodol felly ei sicrhau ei hun fod ysgol annibynnol yn bodloni'r holl ofynion ar gyfer ymsefydliad statudol ANG yng Nghymru cyn i'r cyfnod ymsefydlu ddechrau, ac y bydd hynny'n parhau i fod yn wir yn ystod y cyfnod ymsefydlu.

Y corff priodol ar gyfer sefydliadau addysg bellach yw unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru, ond argymhellir y dylai'r awdurdod lleol ar gyfer ardal ddaearyddol y sefydliad addysg bellach weithredu

fel y corff priodol ar gyfer y sefydliad addysg bellach hwnnw. Rhaid i sefydliadau addysg bellach gytuno ag awdurdod lleol y byddant yn gweithredu fel y corff priodol cyn cynnig ymsefydlu yn y sefydliad.

Ar gyfer ysgolion annibynnol a sefydliadau addysg bellach, caiff y corff priodol godi tâl rhesymol am gyflenwi'r gwasanaeth (nad yw'n uwch na'r gost o wneud hynny).

## Pennu a rheoli mentoriaid allanol

Argymhellir bod y corff priodol yn pennu ac yn rheoli mentoriaid allanol ar sail ranbarthol (h.y. consortia) er mwyn darparu cefnogaeth gyson i ANG ar draws ardal eang yn hytrach na chefnogaeth sydd wedi'i chyfyngu i ysgol neu ardal awdurdod lleol yr ANG.

Bydd Llywodraeth Cymru'n darparu amrywiaeth o adnoddau ar-lein i gefnogi mentoriaid allanol.

Y corff priodol fydd i benderfynu ar y dull o leoli'r mentoriaid allanol. Bydd hyn, yn rhannol, yn dibynnu ar nifer yr ANG sy'n dechrau eu hymsefydliad, ac ar nifer yr ANG sy'n dewis dilyn y Radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol. Bydd awdurdodau lleol yn derbyn cyllid grant gan Lywodraeth Cymru i gefnogi rôl y mentor allanol.

Rhaid cymedroli sampl o bortffolios ymsefydlu ANG ar raddfa genedlaethol. Rhaid i'r gwaith cymedroli hwn gael ei gyflawni gan grŵp o fentoriaid allanol, a chael ei drefnu gan y consortia. Mae mynychder cymedroli cenedlaethol yn hyblyg yn dibynnu ar y galw am hynny, ond argymhellir bod cymedroli'n digwydd o leiaf unwaith y tymor.

Bydd yn ofynnol i fentoriaid allanol gasglu tystiolaeth a ddefnyddir yn sail ar gyfer penderfyniad terfynol y corff priodol ar ddiwedd y cyfnod ymsefydlu.

Rhaid i'r dystiolaeth hon gynnwys:

- portffolio ymsefydlu'r ANG (a ddylai gynnwys tystiolaeth o ysgol(ion) yr ANG)
- tystiolaeth y mentor allanol, gan gynnwys arsylwadau o'r ANG yn addysgu
- unrhyw dystiolaeth berthnasol o'r broses gymedroli genedlaethol
- dadansoddiad o'r dystiolaeth mewn ysgrifen gan y mentor allanol.

## Penderfynu'n derfynol ar ddiwedd y cyfnod ymsefydlu

Mae'n hanfodol fod rôl y corff priodol o ran penderfynu a yw ANG wedi bodloni'r safonau athrawon wrth eu gwaith yn deg, yn gyson ac yn drwyadl.

Rhaid i'r corff priodol seilio'i benderfyniad ar y dystiolaeth ysgrifenedig a dderbynnir gan y mentor allanol, ynghyd â phortffolio ymsefydlu'r ANG (a ddylai gynnwys tystiolaeth o ysgol(ion) yr ANG). Rhaid i'r corff priodol hefyd ystyried unrhyw sylwadau ysgrifenedig gan yr ANG ei hun yn gysylltiedig â'i asesiad terfynol.

Os nad oes gan yr ANG dystiolaeth ddigonol i ddangos ei fod wedi bodloni'r safonau athrawon wrth eu gwaith, cyn penderfynu bod yr ANG wedi methu ei ymsefydliad, rhaid i'r corff priodol ystyried a fyddai'n briodol estyn y cyfnod ymsefydlu.

Er mwyn cynnal sicrwydd ansawdd a sicrhau cysondeb, argymhellir bod yr holl gyrff priodol yn sefydlu panel asesu i gymedroli a chadarnhau dyfarniadau terfynol ynghylch cynnydd ANG yn erbyn y safonau athrawon wrth eu gwaith. Argymhellir gwneud hyn ar sail consortia.

# Estyniadau

## Estyniadau cyn cwblhau'r cyfnod ymsefydlu

Os yw ANG wedi bod yn absennol o'r gwaith am dri deg diwrnod ysgol neu fwy yn ystod ei gyfnod ymsefydlu, yn y rhan fwyaf o achosion, dylid estyn ei gyfnod ymsefydlu yn ôl cyfanswm y cyfnodau o absenoldeb (e.e. os bydd ANG yn absennol am gyfanswm o dri deg pum diwrnod ysgol, dylid rhoi estyniad o dri deg pum diwrnod iddo).

Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau eithriadol, unigol, efallai y bydd corff priodol yn ei hystyried yn briodol rhoi estyniad llai na chyfanswm y cyfnodau o absenoldeb ar gyfnod ymsefydlu ANG, neu beidio rhoi estyniad ar gyfnod ymsefydlu o gwbl, er enghraifft pan fo'r ANG wedi bod:

- yn gofalu am blentyn sâl iawn
- yn gofalu am bartner sâl iawn
- yn gofalu am riant sâl iawn
- ar absenoldeb tadolaeth, rhiant neu fabwysiadu
- yn absennol o'r gwaith oherwydd salwch hirdymor.

Yn yr holl achosion hynny, dylai'r corff priodol drafod yr amgylchiadau â'r ANG dan sylw cyn penderfynu a ddylid rhoi estyniad ac, os yw hynny'n briodol, beth fydd hyd yr estyniad hwnnw.

Ni all corff priodol ond gorfodi estyniad sydd gyfwerth â chyfanswm cyfnod(au) absenoldeb yr ANG neu'n llai.

Fel arfer, disgwylir i'r estyniad ar gyfnod ymsefydlu'r ANG gyfateb â chyfanswm y cyfnod(au) o absenoldeb, yn hytrach na'i fod yn llai na hynny. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol, unigol y bydd y corff priodol yn arfer ei ddoethineb.

Os na roddir estyniad ar gyfnod ymsefydlu ANG neu os rhoddir estyniad arno sy'n llai na chyfanswm y cyfnod(au) o absenoldeb, caiff y corff priodol benderfynu ar ddiwedd cyfnod ymsefydlu'r ANG bod yn rhaid rhoi estyniad ar y cyfnod ymsefydlu os na all yr ANG ddangos ei fod yn gallu bodloni'r safonau athrawon wrth eu gwaith.

## Absenoldeb mamolaeth

Ni ddylai'r corff priodol ymestyn cyfnod ymsefydlu i gyfateb â hyd absenoldeb mamolaeth arferol onid yw'r ANG yn cytuno i hyn. Dylai'r corff priodol a'r ANG dan sylw drafod y cynnydd a wnaed tuag at fodloni'r safonau athrawon wrth eu gwaith, a goblygiadau peidio estyn y cyfnod ymsefydlu. Os bydd ANG yn cytuno i estyn ei chyfnod ymsefydlu, ond bod ei chyfnod o absenoldeb yn golygu y bydd yn dychwelyd i'r gwaith ychydig wythnosau wedi i dymor newydd ddechrau, neu y tu hwnt i'w chyfnod cyflogaeth gyda'r ysgol, gall y corff priodol addasu hyd yr estyniad er mwyn bodloni anghenion yr ANG orau.

## Estyniadau ar ôl cwblhau'r cyfnod ymsefydlu

Y corff priodol neu, ar apêl, y CyngACC sydd i benderfynu a ddylid estyn cyfnod ymsefydlu ANG ar ôl cwblhau'r cyfnod hwnnw, ond argymhellir na ddylid ond estyn cyfnod ymsefydlu mewn amgylchiadau eithriadol. Er enghraifft, am resymau nas rhagwelwyd ac/neu y tu hwnt i reolaeth un neu fwy o'r partïon dan sylw, ei bod hi'n afresymol disgwyl i'r ANG fodloni'r gofynion erbyn diwedd ei gyfnod ymsefydlu, neu nad oes tystiolaeth ddigonol i'w defnyddio'n sail er mwyn penderfynu a yw'r safonau athrawon wrth eu gwaith wedi'u bodloni.

## Estyniadau mewn ysgol neu sefydliad gwahanol

Mae'n bosibl na fydd gan ANG, y mae corff priodol neu, ar apêl, y CyngACC wedi gofyn iddo estyn ei gyfnod ymsefydlu, gyflogaeth sy'n parhau yn yr ysgol lle cwblhaodd ei gyfnod ymsefydlu gwreiddiol. Mewn achosion o'r fath, cyfrifoldeb yr ANG yw canfod swydd addysgu arall er mwyn cwblhau ei gyfnod ymsefydlu. Nid oes dyddiad terfyn ar estyniad. Cyfrifoldeb yr ANG yw sicrhau ei fod yn hysbysu'r ysgol ei bod yn ofynnol iddo gwblhau estyniad i'w gyfnod ymsefydlu wrth dderbyn swydd mewn ysgol. Caiff yr estyniad hefyd ei gofnodi gan y CyngACC ar y gofrestr athrawon.

## Cynnydd anfoddhaol

Os nad yw ANG yn gwneud cynnydd boddhaol tuag at gwblhau ei gyfnod ymsefydlu'n llwyddiannus, rhaid gweithredu'n gynnar i gefnogi a chynghori'r ANG er mwyn gwneud unrhyw welliannau angenrheidiol.

**Gweithredu os ceir cynnydd anfoddhaol**

1. Os oes gan y mentor allanol neu'r ysgol unrhyw bryderon ynghylch cynnydd ANG, rhaid i'r naill godi'r mater gyda'r llall ar unwaith. Ni ddylid aros tan y cyfarfodydd tymhorol rhwng yr ysgol a'r mentor allanol cyn trafod hyn.
2. Cyn gynted ag y daw'n amlwg nad yw'r ANG yn gwneud cynnydd boddhaol, dylai hynny arwain at ddwysáu systemau cefnogi ar unwaith, ynghyd ag amrywiaeth o amcanion mwy penodol, monitro agosach a chofnodi cynnydd.
3. Rhaid i'r mentor allanol arwain y gwaith o gydgysylltu'r gefnogaeth ychwanegol.
4. Os oes gan y mentor allanol unrhyw bryderon yn gysylltiedig â chynnydd yr ANG, rhaid iddo'u rhannu'n brydlon ac mewn ysgrifen â phawb a chanddynt gyfrifoldebau o fewn y broses ymsefydlu, gan gynnwys yr ANG, pennaeth/penaethiaid yr ANG a chydgysylltydd ymsefydlu y corff priodol. Bydd angen trefnu sesiynau arsylwi, hyfforddi a mentora ychwanegol. Bydd yn rhaid adolygu amcanion yr ANG a chynnal cyfarfodydd rheolaidd rhwng yr ysgol, y mentor allanol a'r ANG wedi'u trefnu fesul cyfnod cytunedig i fonitro cynnydd yr ANG.
5. Cyn gynted ag y sylweddolir y gallai ANG fethu cwblhau'r cyfnod ymsefydlu'n foddhaol, dylai'r mentor allanol a'r cydlynydd ymsefydlu y corff priodol eu sicrhau eu hunain ynglŷn â'r canlynol:
   a) bod seiliau cadarn i asesiad yr ANG, a bod yr asesiad hwnnw'n gywir
   b) bod gwendidau wedi'u nodi'n gywir
   c) bod amcanion priodol wedi'u gosod er mwyn datrys y gwendidau
   d) bod rhaglen gefnogi berthnasol wedi'i sefydlu i helpu'r ANG oresgyn y gwendidau a nodwyd.
6. Dylai'r mentor allanol ysgrifennu at yr ANG ynglŷn â'r gofynion asesu a chanlyniadau peidio cyflawni'r gwelliannau angenrheidiol. Dylai'r mentor allanol gyfeirio at ganlyniadau methu cwblhau'r cyfnod ymsefydlu'n foddhaol. Yn yr hysbysiad ysgrifenedig, dylid

nodi'r meysydd lle ceir gwendidau, yr amcanion ar gyfer datblygu a'r gefnogaeth ychwanegol a gynllunnir. Dylid anfon copi o'r hysbysiad ysgrifenedig i ysgol(ion) yr ANG ac i gydgysylltydd ymsefydlu y corff priodol.

## Gweithredu os ceir problemau difrifol o ran gallu

Mewn ambell achos arbennig o ddifrifol, gallai ddod yn amlwg nid yn unig bod yr ANG yn debygol o fethu â chwblhau cyfnod ymsefydlu yn yr ysgol yn foddhaol, ond fod hyn hefyd yn cael effaith ddifrifol ar addysg dysgwyr o dan yr ANG. Mewn achosion o'r fath, efallai y bydd y pennaeth, ar ôl ymgynghori â'r mentor allanol, am ystyried cychwyn gweithdrefn gallu ar unrhyw bryd cyn diwedd y cyfnod ymsefydlu, a allai arwain at ddiswyddo cyn diwedd y cyfnod ymsefydlu. Os digwydd hyn, rhaid i'r weithdrefn ymsefydlu barhau ochr yn ochr â'r weithdrefn gallu gyhyd ag y bo'r ANG yn yr ysgol.

Yn ôl Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) Diwygio 2009, mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu sefydlu gweithdrefnau disgyblu gan gynnwys rheolau a gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â diffyg gallu ar ran y staff. Rhaid iddynt hefyd hysbysu'r staff am y gweithdrefnau hyn.

Os bydd pennaeth yn dewis dilyn y trywydd hwn, rhaid hysbysu mentor allanol a chydgysylltydd ymsefydlu y corff priodol yn ysgrifenedig.

# Ar ôl cwblhau'r cyfnod ymsefydlu

I berwyl y canllawiau drafft hyn mae diwrnod gwaith yn golygu unrhyw ddiwrnod ar wahân i ddydd Sadwrn, dydd Sul neu ŵyl gyhoeddus.

1. Cyn pen deg diwrnod gwaith ar ôl cwblhau cyfnod ymsefydlu ANG, mae'n rhaid i'r mentor allanol ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig wedi'i seilio ar bortffolio ymsefydlu'r ANG (portffolio a gymedrolwyd yn genedlaethol ac sydd yn cynnwys tystiolaeth o ysgol(ion) yr ANG) a thystiolaeth gan y mentor allanol, i'r corff priodol i alluogi hwnnw i wneud penderfyniad terfynol.

2. Cyn pen ugain diwrnod gwaith ar ôl cwblhau'r cyfnod ymsefydlu, mae'n rhaid i'r corff priodol wneud penderfyniad ynglŷn â'r canlynol mewn perthynas â'r ANG:

   a) a yw wedi cwblhau ei gyfnod ymsefydlu'n foddhaol
   b) a oes arno angen estyniad i'w gyfnod ymsefydlu (o fwyafswm o dri thymor ysgol)
   c) a yw wedi methu cwblhau ei gyfnod ymsefydlu'n foddhaol.

   Mae'n rhaid i'r corff priodol ystyried unrhyw sylwadau ysgrifenedig a dderbyniwyd gan yr athro/athrawes wrth ddod i'r penderfyniad hwn.

3. Cyn pen tri diwrnod gwaith ar ôl gwneud y penderfyniad a'i gofnodi mae'n rhaid i'r corff priodol ysgrifennu at yr ANG, y corff llywodraethu neu'r perchennog fel y bo'n briodol, pennaeth yr ysgol (y bu'r ANG yn gweithio ynddi ar ddiwedd y cyfnod ymsefydlu), y cyflogwr (os yw'n wahanol i'r corff priodol ei hun) a'r CyngACC.

   Os bydd y corff priodol yn penderfynu estyn y cyfnod ymsefydlu neu'n dod i'r casgliad bod yr ANG wedi methu cwblhau ei gyfnod ymsefydlu'n foddhaol, mae'n rhaid i'r corff priodol hysbysu'r ANG yn ysgrifenedig fod ganddo'r hawl i apelio i'r CyngACC, gan roi iddo gyfeiriad y CyngACC a'r dyddiad cau ar gyfer apeliadau.

4. Dylai ANG sy'n dymuno apelio anfon rhybudd o'r apêl i gyrraedd y CyngACC cyn pen ugain diwrnod ar ôl i'r ANG dderbyn yr hysbysiad hwn. Ar ôl ugain diwrnod, mae'r hawl hon yn dod i ben oni bai i'r CyngACC estyn y dyddiad cau, ond ni all wneud hyn ond mewn achosion lle mae'n fodlon y byddai peidio ag estyn yr amser yn golygu cryn anghyfiawnder.

## Apeliadau

Mae'r weithdrefn ar gyfer apelio wedi'i nodi yn Atodlen 2 o'r Rheoliadau.

# Canlyniadau methu cwblhau'r ymsefydlu'n foddhaol o ran cyflogaeth

Mae methu cwblhau'r cyfnod ymsefydlu'n foddhaol yn golygu nad yw ANG yn gymwys bellach i gael ei gyflogi'n athro/athrawes mewn ysgol a gynhelir neu ysgol arbennig nas cynhelir gan y bydd ei enw'n cael ei dynnu oddi ar gofrestr athrawon CyngACC.

Ni chaiff ANG sydd yn methu eu cyfnod ymsefydlu a heb wneud cais am estyniad, neu heb dderbyn estyniad, ail-wneud eu cyfnod ymsefydlu mewn sefydliad gwahanol.

Mae'r sefydliadau lle caiff athrawon sydd wedi methu eu cyfnod ymsefydlu eu cyflogi yn cynnwys, er enghraifft, unedau hyfforddi diogel, ysgolion annibynnol a sefydliadau addysg bellach.

**Mae'n rhaid i gyflogwr yr ANG sydd wedi methu'r ymsefydlu ddiswyddo'r ANG fel bod y diswyddiad yn weithredol cyn pen deg diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad pan hysbysodd yr ANG nad oedd yn bwriadu arfer ei hawl i apelio, neu ar ôl y dyddiad pan ddaeth y cyfyngiad amser o ugain diwrnod gwaith ar gyfer apêl i ben heb i apêl gael ei chyflwyno.**

Os clywir apêl gan yr ANG a'r apêl honno'n cael ei gwrthod, dylai'r cyflogwr ddiswyddo'r ANG fel bod diswyddiad yn weithredol cyn pen deg diwrnod gwaith ar ôl derbyn hysbysiad am ganlyniad y gwrandawiad.

Os bydd ANG yn methu ei gyfnod ymsefydlu ac yn apelio, nid oes gofyn i'r cyflogwr ei ddiswyddo ar yr adeg honno ond caiff barhau i gyflogi'r ANG wrth ddisgwyl canlyniad yr apêl. Os bydd y cyflogwr yn parhau i gyflogi ANG sydd wedi methu'r cyfnod ymsefydlu wrth ddisgwyl canlyniad ei apêl, mae gofyn i'r cyflogwr gyfyngu ar ddyletswyddau'r ANG; er enghraifft rhaid iddo beidio â bod yn gyfrifol am ddosbarth nac am addysgu pwnc i grŵp o blant nad ydynt hefyd yn cael eu haddysgu yn y pwnc hwnnw gan athro/athrawes cymwys a phrofiadol yn yr ysgol.

Mae'n ofyniad cyfreithiol mai dim ond y dyletswyddau cyfyngedig hyn y dylai'r ANG eu cyflawni wrth ddisgwyl canlyniad ei apêl, a nodir hyn yn y Rheoliadau.

Os yw ANG wedi methu ei gyfnod ymsefydlu ac yn apelio, caiff y cyflogwr ddiswyddo'r ANG cyn gwybod canlyniad yr apêl (ar yr amod iddo ddilyn ei weithdrefnau gallu, sef y gweithdrefnau a sefydlwyd ac a gyflëwyd i staff yn Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio) 2009).

# Athrawon sy'n cymhwyso y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd/Y Swistir

Caiff rhai athrawon profiadol iawn a hyfforddwyd dramor eu hasesu yn ôl y safonau athrawon wrth eu gwaith heb gyflawni cyfnod ymsefydlu. I fod yn gymwys, mae'n rhaid bod yr athro/athrawes wedi cymhwyso y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd/Y Swistir, wedi dysgu'n amser llawn am ddwy flynedd o leiaf, neu'n rhan-amser am gyfnod sy'n gyfwerth ac wedi ennill statws athro/athrawes cymwysedig drwy ddull penodol a ddiffinnir o dan y cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth. Bydd yr asesiad yn erbyn y safonau athrawon wrth eu gwaith yn cael ei gynnal ar yr un pryd â'r asesiadau yn erbyn safonau'r statws athro/athrawes cymwysedig.

Mae rhai athrawon sydd wedi'u cymhwyso y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd/Y Swistir ac sydd wedi cyflawni'r gofyniad penodol i gwblhau cyfnod o brofiad proffesiynol hefyd sydd yn debyg i gyfnod ymsefydlu yng ngwlad eu cymhwyster, wedi'u heithrio o'r gofyniad i gwblhau cyfnod o ymsefydlu yng Nghymru **ac** asesiad yn erbyn y safonau athrawon wrth eu gwaith.

Ni fydd pob athro/athrawes sydd yn dod i fyd addysgu ar hyd y llwybr hwn yn gymwys ar gyfer asesiad cydamserol yn erbyn y safonau statws athro/athrawes cymwysedig a'r safonau athrawon wrth eu gwaith, nac yn eithriedig o asesiad yn erbyn y safonau athrawon wrth eu gwaith. Dim ond mewn achosion lle mae'r darparwr hyfforddiant cychwynnol athrawon achrededig o'r farn bod hynny'n briodol (e.e. athrawon â chymwysterau da a phrofiad sy'n dod o wledydd lle y ceir safonau addysgu uchel cydnabyddedig, a'r rhai hynny â digon o dystiolaeth iddynt gwblhau cyfnod tebyg o ymsefydlu yng ngwlad eu cymhwyster) y bydd yn bosibl cael asesiad o'r fath neu gael eu hystyried yn eithriedig o asesiad a'r gofyniad i gwblhau cyfnod o ymsefydlu.

# Atodiad A: Safonau athrawon wrth eu gwaith

Er mwyn cwblhau ei gyfnod ymsefydlu'n llwyddiannus, rhaid i bob ANG yng Nghymru fodloni'r safonau athrawon wrth eu gwaith ar ddiwedd y cyfnod ymsefydlu.

## Nodweddion a gwerthoedd proffesiynol

1. Gwerthfawrogi'r amrywiol anghenion sydd gan blant a phobl ifanc.
2. Rhoi gwerth ar berthynas deg, barchus, llawn ymddiriedaeth, gefnogol ac adeiladol â phlant a phobl ifanc.
3. Meddu ar ddisgwyliadau uchel o blant a phobl ifanc er mwyn gwella'r deilliannau ar gyfer pob dysgwr a gwella eu lles.
4. Gwerthfawrogi pa mor bwysig yw meithrin cysylltiadau cadarnhaol rhwng y cartref a'r ysgol.
5. Gwerthfawrogi'r rhan weithredol y mae plant a phobl ifanc yn ei chymryd yn eu cynnydd, eu datblygiad a'u lles eu hunain.
6. Gwerthfawrogi'r rhan weithredol y mae rhieni a gofalwyr yn ei chymryd yng nghynnydd, datblygiad a lles plant a phobl ifanc.
7. Gwerthfawrogi'r cyfraniad y mae plant a phobl ifanc yn ei wneud yn eu cymunedau, a'i ddathlu.
8. Gwerthfawrogi'r cyfraniad y mae staff cymorth a gweithwyr proffesiynol eraill yn ei wneud i ddysgu, datblygiad a lles plant a phobl ifanc.
9. Cymryd rhan weithredol mewn rhwydweithiau proffesiynol a chymunedau dysgu sy'n rhannu rhagdybiaethau a dealltwriaeth gyda chydweithwyr, ac yn eu treialu, a chyfrannu at ddatblygiad ehangach yr ysgol a'r proffesiwn.
10. Gwerthfawrogi pa mor bwysig yw sicrhau bod ymarfer yn gwella drwy bwyso a mesur a chymryd cyfrifoldeb dros eu datblygiad proffesiynol parhaus.
11. Meddu ar ddisgwyliadau uchel o ran datblygu'r iaith Gymraeg yn unol â natur ddwyieithog Cymru.

## Gwybodaeth a dealltwriaeth broffesiynol

12. Meddu ar yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddiweddaraf am ddyletswyddau a chyfrifoldebau proffesiynol athrawon a'r fframwaith statudol y maen nhw'n gweithio ynddo.

13. Deall y cyd-destun polisi addysg cenedlaethol yng Nghymru a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg, gan gynnwys deall egwyddorion y Cwricwlwm Cymreig a sut y dylid ei ddefnyddio fel sail i'w hymarfer.
14. Defnyddio dealltwriaeth o ddisgwyliadau, trefniadaeth ac addysgeg y cyfnodau allweddol neu'r cyfnodau cyn a/neu ar ôl y rhai y maen nhw'n eu dysgu fel sail i'w hymarfer a'u cynllunio.
15. Deall y ffactorau allweddol sy'n effeithio ar ddysgu a lles plant a phobl ifanc.
16. Parhau i gaffael yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddiweddaraf mewn perthynas â'u pynciau/meysydd cwricwlwm a'r addysgeg berthnasol i'w defnyddio fel sail i'w hymarfer.
17. Deall eu rôl i wella sgiliau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm.
18. Parhau i gaffael gwybodaeth a dysgu ym maes TGCh i gefnogi'r addysgu a'r dysgu, ac yn eu rôl broffesiynol ehangach.
19. Deall *Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004) a'i gymhwyso i fodloni amrywiol anghenion dysgwyr.
20. Deall pryd y mae'n briodol i ofyn am wybodaeth, cyngor a chefnogaeth o ffynonellau mewnol ac allanol, gan gynnwys gweithdrefnau diogelu plant, a sut mae gwneud hynny.
21. Bod yn ymwybodol o strategaethau amrywiol a gwybod sut i'w defnyddio i annog ymddygiad da a chreu amgylchedd dysgu pwrpasol.
22. Deall sut y gellid defnyddio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc fel sail i'w hymarfer ac i wella deilliannau dysgwyr.
23. Dealltwriaeth o'r disgwyliadau yn y cwricwlwm mewn perthynas â darpariaeth cyfrwng Cymraeg a/neu Gymraeg ail iaith.

## Sgiliau proffesiynol

### Cynllunio a gosod targedau

24. Gosod amcanion addysgu a dysgu heriol sy'n cael eu harwain gan ddisgwyliadau deallus am ddysgwyr unigol yn seiliedig ar wybodaeth am safonau disgwyliedig y grŵp oedran perthnasol ac ystod a chynnwys y gwaith sy'n briodol i ddysgwyr yn y grŵp oedran hwnnw.

25. Defnyddio'r amcanion addysgu a dysgu hyn i gynllunio gwersi, a chyfresi o wersi, sy'n dangos yn glir sut y bydd sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwyr yn cael eu hasesu.

26. Personoli'r dysgu er mwyn rhoi sylw i anghenion unigol gan gynnwys ceisio barn y dysgwyr am beth fyddai o gymorth iddynt gyflawni eu potensial.

27. Pennu adnoddau i gefnogi'r dysgu a fydd yn ysgogi ac yn symbylu pob dysgwr i gyflawni'r deilliannau a ddymunir.

28. Gweithio'n effeithiol fel aelod o dîm a chydweithio â chydweithwyr i gynllunio gwaith a phennu targedau.

29. Cynllunio er mwyn i'r staff cymorth gymryd rhan briodol yn y gwaith o gefnogi'r dysgu a sicrhau eu bod yn deall y rolau mae disgwyl iddynt eu cyflawni.

30. Cynllunio cyfleoedd priodol i blant a phobl ifanc ddysgu mewn lleoliadau y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

31. Trefnu, rheoli a blaenoriaethu amser yn effeithiol o fewn eu rôl broffesiynol ehangach.

32. Sefydlu a chynnal dulliau cyfathrebu effeithiol â phlant, pobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr.

### Monitro ac asesu

33. Defnyddio amrywiaeth o strategaethau monitro ac asesu, gan gynnwys asesiadau ffurfiannol a chyfunol, i werthuso cynnydd y dysgwyr tuag at gyflawni eu hamcanion dysgu, a defnyddio'r wybodaeth hon i wella eu gwaith cynllunio ac addysgu eu hunain.

34. Bodloni'r gofynion a'r trefniadau asesu ar gyfer y pynciau/meysydd cwricwlwm a chyfnodau y maen nhw'n eu dysgu, gan gynnwys y rheini sy'n gysylltiedig ag arholiadau a chymwysterau cyhoeddus.

35. Defnyddio technegau monitro ac asesu i nodi a chefnogi dysgwyr, gan gynnwys y rheini ag anghenion dysgu ychwanegol; dysgwyr sy'n fwy abl a thalentog; dysgwyr sy'n gweithio ar lefel is na'r disgwyl ar gyfer eu hoed; dysgwyr sy'n methu â chyrraedd eu potensial; a dysgwyr ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol.

36. Cynnwys dysgwyr yn y gwaith o osod targedau ac wrth bwyso a mesur eu perfformiad a'i werthuso.

37. Monitro a chofnodi cynnydd a chyflawniadau dysgwyr i ddarparu tystiolaeth o ystod eu gwaith, eu cynnydd a'u cyrhaeddiad dros gyfnod o amser, gan ystyried cyfranogiad a safbwynt y dysgwr.

38. Rhoi adborth cywir ac adeiladol i ddysgwyr ar eu cryfderau, eu gwendidau, eu cyrhaeddiad, eu cynnydd, a'r meysydd i'w datblygu, gan gynnwys cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella.

39. Rhoi adborth amserol, cywir ac adeiladol i gydweithwyr, rhieni a gofalwyr ar gyrhaeddiad dysgwyr, eu cynnydd, a'r meysydd i'w datblygu, gan ddefnyddio cofnodion ategol a thystiolaeth arall.

**Addysgu a rheoli'r dysgu**

40. Sefydlu a chynnal amgylcheddau dysgu effeithiol, lle mae pob dysgwr yn teimlo'n ddiogel a hyderus.

41. Dysgu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol a disgwyliedig sy'n berthnasol i anghenion y dysgwr, gan wneud defnydd priodol o'r canllawiau cenedlaethol perthnasol.

42. Cynnig darpariaeth wedi'i phersonoli effeithiol wrth addysgu, gan gynnwys rhoi ystyriaeth ymarferol i amrywiaeth a hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant.

43. Herio achosion o ragfarnu, stereoteipio, bwlïo ac aflonyddu, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r ysgol.

44. Dysgu gwersi neu gyfresi o waith ag iddynt strwythur clir fel bod pob dysgwr yn deall yr amcanion dysgu arfaethedig, ac yn eu bodloni.

45. Defnyddio strategaethau addysgu priodol sy'n datblygu gallu pob dysgwr i weithio ar y cyd ac yn annibynnol.

46. Datblygu ar amrywiol brofiadau, cyflawniadau a diddordebau'r dysgwyr i'w helpu i wneud cynnydd.

47. Rheoli'r amser addysgu a dysgu yn effeithiol.

48. Rheoli'r amgylchedd dysgu ffisegol, yr offer, deunyddiau, testunau ac adnoddau eraill yn ddiogel ac effeithiol.

49. Defnyddio strategaethau addysgu priodol i sicrhau ymddygiad cadarnhaol.

50. Defnyddio strategaethau addysgu priodol i hyrwyddo lles plant a phobl ifanc.

51. Defnyddio strategaethau addysgu priodol i hyrwyddo cynnydd a deilliannau da i ddysgwyr dros gyfnod estynedig o amser.

52. Defnyddio TGCh yn effeithiol wrth addysgu a dysgu.

53. Annog dysgwyr i wneud cynnydd annibynnol drwy ddarparu gweithgareddau neu gyfleoedd eraill i astudio y tu allan i oriau ysgol, sy'n ategu'r gwaith a wneir yn yr ysgol, ac yn ymestyn arno.

54. Cydweithio ag athrawon a chydweithwyr eraill, gan gynnwys y rheini o asiantaethau allanol, i wella dysgu a lles y rheini y maen nhw'n eu haddysgu.

55. Hyrwyddo dealltwriaeth dysgwyr o natur ddwyieithog Cymru a datblygu eu sgiliau dwyieithog fel sy'n briodol.

# Atodiad B: Sefydliadau addysg bellach

Caiff sefydliadau addysg bellach, sydd yn cynnwys colegau chweched dosbarth, ddarparu cyfnod ymsefydlu os dymunant. Mae'n rhaid i sefydliadau addysg bellach gytuno ag awdurdod y byddant yn gweithredu fel y corff priodol cyn cynnig yr ymsefydlu yn y sefydliad. Heb sicrhau'r fath gytundeb cyn dechrau'r cyfnod ymsefydlu, bydd unrhyw ymsefydlu a gyflawnir gan yr ANG yn annilys a bydd angen ei ailadrodd.

Caiff y corff priodol godi tâl rhesymol (dim mwy na chost darparu'r gwasanaeth) gan sefydliad addysg bellach sy'n derbyn ei wasanaeth.

Mae'n rhaid i sefydliadau addysg bellach sy'n dymuno darparu cyfnod ymsefydlu ar gyfer ANG ystyried gofynion y Rheoliadau. Mae'n rhaid i'r staff sy'n gyfrifol am oruchwylio, hyfforddi ac asesu'r ANG mewn sefydliadau addysg bellach roi sylw i'r holl ganllawiau ynghylch ymsefydlu a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.

Argymhellir bod ANG sy'n treulio'u cyfnod ymsefydlu mewn sefydliad addysg bellach yn cofrestru gyda'r CyngACC tra pery eu cyfnod ymsefydlu, a derbyn bod gan y CyngACC gyfrifoldeb i fonitro cyfnod ymsefydlu pob ANG yng Nghymru ac i ddarparu tystysgrifau ar ôl cwblhau'r ymsefydlu'n llwyddiannus.

Os bydd sefydliad addysg bellach yn dymuno darparu cyfnod ymsefydlu statudol ar gyfer ANG dylai sicrhau:

1. bod gan yr ANG amserlen o ddim mwy na naw deg y cant o'r amserlen addysgu arferol gyfartalog er mwyn caniatáu gweithredu'r ymsefydlu
2. ni ddylai'r ANG dreulio mwy na deg y cant o'i amser addysgu yn addysgu dosbarthiadau o ddysgwyr sy'n bedair ar bymtheg oed a throsodd yn bennaf
3. bod yr ANG, yn ystod y cyfnod ymsefydlu, yn treulio'r hyn sydd gyfwerth â deg diwrnod ysgol o leiaf yn addysgu plant o oed ysgol gorfodol; argymhellir y dylai sefydliadau addysg bellach, gyda chymorth eu corff priodol, wneud pob ymdrech i ddarparu rhwng ugain i bump ar hugain o ddyddiau o brofiad mewn ysgol, os yw hynny'n bosibl
4. bod y gefnogaeth a roddir i'r ANG o fewn y sefydliad addysg bellach yn cael ei ddarparu gan unigolyn a chanddo statws athro/athrawes cymwysedig.

# Atodiad C: Cysylltiadau a dolenni defnyddiol

## Ar gyfer ymholiadau cyffredinol mewn perthynas â'r canllawiau hyn

Y Tîm Ymsefydlu
Yr Is-adran Dysgu, Gwella a Datblygiad Proffesiynol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2080 1389
Ffacs: 029 2082 6109
e-bost: inductioninfo@cymru.gsi.gov.uk

## Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC)

Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru
9fed Llawr
Eastgate House
Ffordd Casnewydd
Caerdydd
CF24 0AB

Ffôn: 029 2046 0099
Ffacs: 029 2047 5850
e-bost: information@gtcw.org.uk

Ar gyfer ymholiadau ynglŷn ag ariannu cysylltwch â thîm ariannu ymsefydlu CyngACC:
Ffôn: 029 2046 0099
Ffacs: 029 2047 5850
e-bost: induction&epd@gtcw.org.uk

## I gael gwybodaeth am addysgu ac ymsefydlu yn Lloegr

Department for Education
Castle View House
East Lane
Runcorn
Cheshire
WA7 2GJ

Ffôn: 0370 000 2288
e-bost: info@dfe.gsi.gov.uk
Gwefan: www.education.gov.uk

The Training and Development Agency for Schools (TDA)
Ffôn: 0800 389 2500
e-bost: induction@tda.gov.uk

### I gael gwybodaeth am addysgu ac ymsefydlu yn yr Alban

The GTC Scotland
Clerwood House
96 Clermiston Road
Edinburgh
EH12 6UT

Ffôn: 0131 314 6000
Ffacs: 0131 314 6001
e-bost: gtcs@gtcs.org.uk
Gwefan: www.gtcs.org.uk

Education Scotland
Denholm House
Almondvale Business Park
Almondvale Way
Livingston
EH54 6GA

Ffôn: 0141 282 5000
e-bost: enquiries@educationscotland.gov.uk
Gwefan: www.educationscotland.gov.uk

### I gael gwybodaeth am addysgu ac ymsefydlu yng Ngogledd Iwerddon

Department for Education Northern Ireland
Rathgael House
43 Balloo Road
Bangor
Co. Down
BT19 7PR

Ffôn: 028 9127 9279
Ffacs: 028 9127 9100
e-bost: mail@deni.gov.uk
Gwefan: www.deni.gov.uk

## Independent Schools Council Teacher Induction Panel (IStip)

Wendy Sutton-Miller
Independent Schools Council
St Vincent House
30 Orange Street
London
WC2H 7HH

Ffôn: 020 7766 7070
e-bost: wendy.sutton-miller@isc.co.uk